# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 8fed o Fehefin 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. Croeso gan y Cadeirydd, a chroesawu'r Cynghorydd Euros Jones yn aelod newydd yn Ward Llangybi.

2. **Yn bresennol** – Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans (Is Gadeirydd), Margaret Griffith, Angela Williams, Dylan Thomas, Rhys Tudur, Tegid Jones, Aled Davies, Delyth Parry, Gareth O.Davies, Euros Jones a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Darren Morley, Miriam Williams, Anwen Jones a Sion Jones.

3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 4ydd o Fai, 2023 - **Derbyn**.

4. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mai 2023.

5. **Datgan buddiant personol - neb.**

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mehefin 2023**

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Llanystumdwy | Tîm Tacluso – Ardal Ni 26/06/2023 – 30/06/2023 | Priffyrdd |

'Arwisgo' - yn dilyn ein cyfarfod diwethaf derbyniodd y Clerc eglurhad am beth yw ystyr gwaith 'arwisgo' ar y lon- sef 'surface dressing'. Mae arwisgo mwy fel gosod 'tar a chippings' a'i fod yn cael ei wneud gan weithlu'r Cyngor, mae ailwynebu yn cael ei wneud gan gontractwyr – dim cerrig rhydd ar hwnnw.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
**a) Cais cynllunio: Rhif Cais: C23/0380/41/LL - Ysgol Gynradd Chwilog -** adeiladu estyniad ystafell ddosbarth modiwlaidd unllawr. **Cefnogi**.

**b) Cais cynllunio: rhif cais C23/0387/41/LL - Ysgol Treferthyr, Cricieth**, - gosod 5 pwmp gwresogi ffynhonell aer oddi fewn i gompownd ffens bren i'r gogledd o adeilad yr ysgol. **Cefnogi**

8. **Addurno ffyrdd ar gyfer Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023**
Er mwyn cynorthwyo cymunedau sydd yn awyddus i addurno'n ffyrdd dros ŵyl yr Eisteddfod eleni, drwy osod baneri, arwyddion, cafnau neu botiau blodau ac ati ar ddarnau o'r briffordd, mae Cyngor Gwynedd yn fodlon i'r cymunedau gydweithio gyda'i gilydd a chyflwyno un ffurflen ac un cynllun sydd yn amlygu pa eitemau sydd yn cael eu gosod ym mhle. Maent wedi anfon copi o'r ffurflen gais at y Clerc, fel y gellir cyflwyno cais fesul Cyngor.
**Bydd angen cyflwyno'r wybodaeth erbyn diwedd mis Mehefin 2023.**

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn fodlon ariannu un polisi yswiriant atebolrwydd ar gyfer yr holl leoliadau sydd wedi ei gytuno oddi fewn i'r cynlluniau, felly ni fydd angen poeni am yr elfen yma.  Bydd angen anfon y wybodaeth at Ceri Hughes Thomas, Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

9. **Llyfr Coffa – Gardd Tangnefedd**

Mae Llyfr Coffa yn cael ei baratoi i nodi yr enwau a phentrefi trigolion o Wynedd a fu farw oherwydd Covid 19 a bydd rhain yn cael eu casglu gan Eglwys y Drindod Penrhyndeudraeth. Bydd y llyfr yn cynnwys yr enw bedydd a'r cyfenw yn unig a chartref olaf yng Ngwynedd i'r ymadawedig. Mae yr Ardd Dawel yng nghefn yr Eglwys yn gyflwynedig i'r rhai hynny a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig ac mae croeso i unrhyw un wneud ymholiadau ynglŷn â chynnwys gwybodaeth yn y Llyfr Coffa.  **Derbyn er gwybodaeth.**

10. **Cynllun Peilot Dwyfor**
Y Clerc wedi anfon ebost yn dangos diweddariad am brif agweddau y mae Catrin Huws, Grwp Cynefin wedi edrych arno ers ei gwaith ymgynghori hefo Cynghorau Tref a Chymuned cyn y Nadolig. Roedd yn cynnig sesiwn wybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Prynu Cartref Gwynedd ble mae cyfle i ofyn cwestiynau.
Roedd eisiau holi os oedd gan rywun yn y gymuned ddiddordeb mewn tai o dan arweiniad y gymuned, (gall hyn olygu bod y gymuned yn perchnogi eiddo gwag gan ddod a fo yn ôl i ddefnydd ar gyfer person lleol yn y gymuned, neu ddatblygu tai o'r newydd).  Maent hefyd wedi anfon holiadur i'w gwblhau erbyn 07.07.2023.
Nodwyd ei fod yn beth da fod sylw wedi cael ei wneud yn y nodiadau a ddaeth hefo'r holiadur yn dweud yn anffodus nid yw'n bosib newid/hyblygu y polisi Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.  Felly, heb addasu'r cynllun datblygu lleol mae'n mynd i fod yn anodd canfod tir. Hefyd sut mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg am allu cael unrhyw rym heb addasu'r cynllun datblygu lleol.  Nodwyd hefyd efallai byddai'n syniad i lacio'r rheolau i bobl sydd yn gymwys, fel y rhai sydd yn byw tu allan i'r ardal, os ydynt wedi bod yn byw yma cynt.

11. **Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - gwynebu Heriau'r Dyfodol**

Mae Un Llais Cymru yn cynnal ei Cynhadledd Arfer Arloesol ar Faes y Sioe Amaethyddol ar 5ed o Orffennaf 2023.   Fe fydd detholiad o siaradwyr, gwybodaeth am raglenni gwaith perthnasol a gweithdai ar arfer arloesol.  **Neb**.

12. **Rheolau Sefydlog Newydd 2023** derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru yn cynnwys diweddariad. – **Trefnu cyfarfod Polisi am 6:30 ar 06.07.2023 o flaen y prif gyfarfod.**

**Materion yn y gymuned**.

13. **Llanystumdwy**

a) **Pont Llanystumdwy** – mae canclwm wedi dechrau tyfu yno eto. Fe wnaeth y Clerc gysylltu hefo Mr Richard Hubbard, ac fe wnaeth yno gan ddweud nad oedd llawer ohono yno, felly mae wedi ei dynnu oddi yno, yn ddi-dal. **Y Clerc wedi diolch gan ddatgan ein gwerthfawrogiad iddo.**

14. **Rhoslan/Ynys**
**'Factory Covert'/ Gwinllan Betws** - pryder fod gweithgareddau, a llawer o bobl yn mynd yno i'r goedwig ar adegau fel dros wyl banc a cherddoriaeth uchel i'w glywed yno am oriau.  Bu

twrw uchel iawn yno am oddeutu 3 diwrnod dros wyl banc fis Awst llynedd drwy'r dydd ac yn hwyr i'r nos, a mis Mai eleni. Mae pabell 'marquee' fawr yno, a niferoedd mawr yn gwersylla yno. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Adran Amgylchedd a Gorfodaeth y Cyngor i weld beth yw'r sefyllfa, ac i holi beth yw'r sefyllfa garthffosiaeth o ystyried y niferoedd sydd yn mynd yno.

15. **Chwilog**

**a) Problemau parcio yn Chwilog**

Trafodwyd y mater yng Nghyfarfod Blynyddol Neuadd Goffa Chwilog ar 12 Mai 2023 pryd y penderfynwyd gofyn i Gyngor Cymuned Llanystumdwy gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglyn â'r posibilrwydd o gael defnyddio maes parcio'r ysgol ar adegau i barcio cerbydau rhai o ddefnyddwyr y neuadd. Angen cysylltu wedyn hefo Ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd. Trafodwyd y mater, ac mae gwaith adeiladu i ymestyn yr ysgol ar fin cychwyn, felly mae'n anhebygol bydd hyn yn bosib.
**Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Mr Glyn Evans a Mr Glyn Titus, Cyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod hefo rhai o'r cynghorwyr tua 3:00 yr hwyr ar ddiwrnod ysgol i weld beth ellir ei wneud yno i ddatrys y broblem.**

**b) Arwyddion Lôn Goed**

Anfonwyd llythyr drwy ebost at yr Eisteddfod Genedlaethol yn egluro for Cyngor Gwynedd wedi gwrthod gosod arwyddion i ddynodi lleoliad y Lôn Goed, gan nodi nad oes lleoliadau parcio pwrpasol o gylch y Lôn Goed. Egurwyd ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth mynychwyr yr Eisteddfod o leoliad y Lôn Goed felly gofynwyd os byddai modd iddynt godi ymwybyddiaeth trwy ei gwefan neu drwy arwyddion ar dir preifat. Ni dderbyniwyd ateb ganddynt eto.

**c) Garej Pandy**

Cwyn fod llawer o draffig yn parcio o flaen y lle, a charafanau yn cael ei symud nol a blaen a allai achosi damwain. Maent hefyd yn defnyddio'r 'arosfan' sydd ar draws y lon, a'r lon bach heibio tyrpeg am Chwilog.

Fe gysylltwyd hefo Cyngor Gwynedd beth amser nol, ac wrth edrych drwy'r cofnodion nodwyd yr isod ar 01.07.2021 a 07.10.2021:-

"*10b) **Garej Pandy** - wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r sefyllfa cerbydau yn parcio yno ymhob man ar ochr y lon, oherwydd ei bod yn ei gwneud yn beryglus i bobl sydd yn ymweld, cerdded/ beicio a gyrru heibio'r safle. Mae prysurdeb mawr yno ac mae'n beryglus ar lon mor brysur. **Angen i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd."***

Ni dderbyniwyd ymateb ganddynt, ac nid ydynt bob amser yn ateb, a weithiau maent yn gwneud y gwaith, neu beth bynnag sydd angen heb adael i ni wybod. Mae gan y Clerc gof ei bod wedi siarad hefo Swyddog o'r Cyngor am y mater, ac fe ddywedodd rhywbeth fel ei fod yn anodd gwneud dim ynglýn â'r safle, a'i bod nhw eisioes wedi codi'r mater hefo'r perchennog yn y gorffennol.

**Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd eto.**

16. **Pencaenewydd/Sardis**
**Sbwriel ar ochr ffyrdd**

Cais yn gofyn am roi arwyddion 'dim ysbwriel' a biniau yn y gymuned.
O ran mannau gwaethaf, mae sbwriel yn casglu yn sydyn ar y lôn o Llangybi am Plas Du, hefyd am Llangybi o'r groesffordd, a'r lôn o Pencaenewydd am Trallwyn. Mae grwp cymunedol wedi bod yn casglu sbwriel o gwmpas Pencaenewydd yn ystod mis Mai. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch iddynt.

Fe wnaeth y Clerc gysylltu hefo Norman Hughes, Tîm Tacluso Ardal Ni, ddechrau mis Mai, ac roeddent am gasglu sbwriel rhwng Chwilog a Pandy, a rhwng yr Hufenfa a Chwilog. Maent yn y broses o lanhau arwyddion y Cyngor yn Llanystumdwy a'r ardal cyn yr Eisteddfod, hefyd (llawer ohonynt wedi troi yn wyrdd dros amser). Nid yw'r Cyngor yn gosod biniau sbwriel ymhob man oherwydd ei bod yn denu pobl i adael ei sbwriel mewn sachau du o amgylch y bin, sydd yn creu problemau a llygredd. **Y Clerc am holi Cyngor Gwynedd a arwyddion yn y mannau gwaethaf.**

17. **Llangybi**

a) **Llwybrau cyhoeddus o gwmpas Garn Bentyrch –** cais gan Cynghorydd Rhys Tudur i ofyn wrth Cyngor Gwynedd drwsio'r camfeydd rhwng Fferm Fron Oleu, Pencaenewydd i Ffynnon Cybi. Y llwybrau yn rhan o Rwydwaith Llwybrau Treftadaeth Glennydd Llŷn. **Clerc i holi**

b) **Cae Chwarae** – yn dilyn derbyn adroddiad gan 'Fields in Trust' llynedd, a derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd, mae'r matiau du sydd yno angen sylw eto ac yn colli ei lliw ar esgidiau plant. Derbyniwyd pris gan G.L. Jones Playgrounds Ltd am £21,210.00 (cynnwys £3,535.00 o TAW), am godi'r hen deils ac ailwynebu'r 3 darn hefo 'wet-pour' du.

Fe wnaeth y Clerc holi tybed a oedd unrhyw fath o 'sealant' ar gael yn hytrach na gosod llawr newydd oherwydd y gost a dywedwyd mai yr unig ffordd i ddatrus y broblem yn iawn fyddai i godi y teils a gosod llawr 'wet-pour' yn ei lle. Roeddent yn dweud yn y gorffennol roeddent wedi llenwi y bylchau rhwng y teils gyda 'wet-pour a sealant', ond mewn dim mae symudiad y teils yn achosi i'r bylchau ddod yn ol. Roeddent hefyd wedi ceisio codi'r teils, ei glanhau nhw, gadael iddynt sychu, a'i ailgludo nhw. Mae hyn yn proses hir a chostus a ddim yn llwyddianus pan mae eitemau yng nghanol y rwber e.e. coesau uned ddringo.
Roedd y Clerc wedi holi Cynghorau eraill o fewn yr ardal, ac Adran Meysydd Chwarae Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd ymateb gan Gwyn Williams, Archwiliwr Meysydd Chwarae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau mai gosod 'wet pour' yw'r ateb gorau hir dymor, a'i bod yn well delio hefo cwmni lleol rhag ofn y bydd problemau yn y dyfodol.
**Gofynwyd i'r Clerc holi am arian gan y loteri.**

18. **Llwybr cyhoeddus o'r ffordd fawr**
Angen torri drain duon a mieri sydd ar y llwybr cyhoeddus sydd newydd gael ei ffensio i lawr o'r ffordd fawr yn Llangybi (ger Lleifior – mae plot o dir ar werth gerllaw), am Pont y Merched. Disgwyl ymateb gan Cyngor Gwynedd.

19. **Glanhau llochesi bws** – angen cytundeb newydd o Ebrill 2023 ymlaen – gwnaed un am 2 flynedd yn flaenorol tan 31.03.2023. Heb gael ateb eto, felly ei trafod fis Gorffennaf.

20. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.05.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Dangoswyd y biliau i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod i'w llofnodi a'i awdurdodi.

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Zurich Municipal | Yswiriant 01.06.23-31.05.24 | **712.79** | | **712.79** | **712.79** |

22. Cyflog mis Mai 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.20<br>= **£356.35** | **356.35** | **356.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mai 2023 | 446.00 x 20% =<br>**£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc<br>Mai 2023 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **06.07.2023**, yn Neuadd Llanystumdwy am 7:00 yr hwyr.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**